



Polisi Iaith Gymraeg.

Gellir cael copi Saesneg o'r polisi hwn trwy wneud cais.

A copy of this policy can be provided in English on request.

1. Cwmpas.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i staff, gwirfoddolwyr, gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau a ddarperir gan gwmni Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen Cyf. Caiff sefydliadau, gwasanaethau a chynlluniau trafndiaeth gymunedol eraill eu llywodraethu gan eu polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain.

2. Cyflwyniad.

Nod Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen Cyf. yw dilyn arferion da dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl weithgareddau busnes. Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a oedd â dyletswydd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau cydymffurfriad ledled y sector cyhoeddus. Roedd hefyd yn rhoi hawl gyfreithiol i bob siaradwr Cymraeg siarad Cymraeg mewn llysoedd beth bynnag yw'r amgylchiadau.

Roedd Mesur y Gymraeg 2011 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae wedi creu swydd newydd Comisiynydd y Gymraeg â phwerau gorfodi er mwyn amddiffyn hawliau siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a gellir gorfodi'r hawliau hyn er mwyn galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â sefydliadau sector cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Pan gaiff polisiau, arferion neu gynlluniau sefydliadol newydd eu cyflwyno byddwn yn sicrhau eu bod yn hwyluso ac yn hybu'r hyn rydym yn addo ei wneud yn y Polisi hwn.

Rhan annatod o gyflawni ein gwasanaethau fydd codi ymwybyddiaeth ystyrion o'r iaith Gymraeg a'i photensial busnes yn gyffredinol, ac mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf.

3. Ein Hegwyddorion o ran yr Iaith Gymraeg.

Rydym wedi mabwysiadu egwyddor Deddf yr Iaith Gymraeg y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd y ddwy iaith yn cael yr un statws a'r un dilysrwydd.

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor hon yn ein gwaith.

Wrth ymdrin â'n cleientiaid a chwsmeriaid eraill, byddwn:

- yn mabwysiadu'r un nodau a safonau proffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, lle bynnag y bodd,
- yn galluogi ein cwsmeriaid, lle bynnag y bo modd, i ddefnyddio'r Gymraeg mor rhwydd â'r Saesneg wrth ddelio gyda ni, ac yn sicrhau bod cleientiaid yn cael eu hysbysu ymlaen llaw y gallant geisio gwybodaeth a chynghor ym mha bynnag iaith y maent yn ei dewis.



Rydym yn cymryd yr ymrwymiad yma o ddifri ac yn mabwysiadu agwedd ragweithiol at ddewis iaith yn ein gwasanaethau, lle bynnag y bo modd. Wrth gysylltu â chwsmeriaid, mae hyn yn golygu cynnig dewis iaith ymlaen llaw, a gwneud ein gorau i gyflawni hynny.

Bydd hyn yn golygu ein bod yn atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

4. Ymwelwyr â'n Safle.

Mae croeso i gwsmeriaid sy'n ymweld â'n safle gyflwyno eu hymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff hysbysiad dwyieithog ei arddangos yn y dderbynfa i egluro wrth ymwelwyr y gallant ddelio gyda'r sefydliad yn y naill iaith neu'r llall. Mae rhai o'r staff sy'n gweithio yn ein derbynfeydd yn ddwyieithog.

Byddwn yn gofyn i ymwelwyr a fyddent yn hoffi siarad â rhywun yn Gymraeg.

Mae aelod[au] o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl y galw, naill ai yn y fan a'r lle neu trwy drefniant.

Bydd deunydd ar ddrwsau, waliau, hysbysfyrddau, raciau arddangos, silffoedd a byrddau yn ein derbynfeydd ac ardaloedd cyhoeddus a choridorau i'w gweld yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys arwyddion a hysbysiadau sefydlog a thros dro, posteri, llenyddiaeth ac yn y blaen.

Os bydd rhywrai eraill yn gofyn i ni arddangos eu deunydd, byddwn yn gofyn iddynt eu darparu'n ddwyieithog.

5. Cyswllt Ffôn.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn gan gwsmeriaid yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Caiff galwadau i'r switsfwrdd eu hateb â chyfarfod dwyieithog, ac ymdrinnir â hwy yn yr iaith a ffefrir gan y galwr. Gwneir hynny gan y sawl sy'n ateb y ffôn neu gan aelod arall o'r staff.

Os nad oes rhywun sy'n siarad Cymraeg ar gael i gymryd yr alwad, trefnir bod siaradwr Cymraeg yn dychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo modd.

Mae gwasanaeth neges llais ein switsfwrdd yn ddwyieithog, ac mae croeso i gwsmeriaid adael neges yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Byddwn yn annog gweddill ein staff i ddefnyddio cyfarfod dwyieithog wrth ateb y ffôn, ac i sicrhau bod eu neges llais bersonol yn ddwyieithog.

6. Llythyrau, Negeseuon Ebst a Dogfennau.

Rydym yn croesawu llythyrau a gohebiaeth ysgrifenedig arall, megis e-bost, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cwsmer, yn unol â thargedau ymateb. Caiff pob llythyr copi caled a anfonir gennym ei lofnodi, pa bynnag iaith a ddefnyddir yn y llythyr.

Bydd pob gohebiaeth a ysgrifennwyd gan aelodau o'n staff, boed yn Saesneg neu yn Gymraeg, yn cynnwys troednodyn dwyieithog yn nodi y gall y sawl sy'n derbyn yr ohebiaeth ymateb ym mha bynnag iaith y mae'n ei ffafrio - y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd unrhyw atebion dilynol a dderbynnir i ymatebion yn iaith yr ymatebion hynny. Ambell waith bydd yr amseroedd ymateb ar gyfer llythyrau a negeseuon ebst y gallai fod angen eu cyfieithu yn fwy na'r amseroedd ymateb ar gyfer rhai a anfonir mewn un iaith yn unig.

Caiff llythyrau safonol a llythyrau grŵp eu hanfon yn ddwyieithog fel arfer.



Os yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys (e.e. trwy ddeunydd marchnata, cyfarfodydd neu sgysiau blaenorol, galwadau ffôn a negeseuon e-bost) anfonir gohebiaeth yn newis iaith y derbynnydd, oni chytunwyd yn wahanol.

Mae'r dull gweithredu uchod yn berthnasol i bob math o ohebiaeth ysgrifenedig. Mae trefniadau cyfieithu ar gael i helpu staff.

7. Cyfarfodydd a Chynadleddau.

Bydd croeso i'r rhai sy'n dod i dderbyniadau, cyfarfodydd cyhoeddus, gweithdai neu gynadleddau a gynhelir gennym gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff hyn ei hysbysu mewn gwahoddiadau a gwaith papur cyn cyfarfodydd, ac ar ddechrau gweithdrefnau. Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog. Byddant naill ai'n nodi y darperir offer cyfieithu, neu'n gofyn i bobl hysbysu trefnwyr y digwyddiad ymlaen llaw ynglŷn â'u dewis iaith fel bod modd trefnu offer cyfieithu pan fo angen.

Mae'n bosibl y defnyddir offer cyfieithu ar y pryd yn y sesiwn llawn, ond byddwn yn edrych ar bob achos yn unigol er mwyn penderfynu a fydd offer cyfieithu ar y pryd ar gael mewn gweithdai hefyd. Bydd penderfyniadau yn seiliedig ar logisteg, galw a chosteffeithiolrwydd.

Bydd aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol mewn digwyddiadau busnes i groesawu pobl ac ateb unrhyw ymholiadau.

Fel arfer byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys ein cyflwyniadau.

Os yw'n bosibl, byddwn yn defnyddio'r Gymraeg ein hunain o'r llwyfan, podiwm neu lawr, a byddwn yn annog pobl eraill i wneud hyn hefyd pan wneir trefniadau a thrwy'r sawl sy'n cadeirio'r digwyddiad.

8. Ein Hwytneb Cyhoeddus a'n Cynnyrch.

8.1 Hunaniaeth Gorfforaethol.

Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn gwbl ddwyieithog. Bydd ein henw, manylion cysylltu, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg ar bob deunydd sy'n arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein papur a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cyhoeddiadau, hysbysebion, gwefan, arwyddion a cherbydau.

8.2 Arwyddion.

Bydd ein harwyddion parhaol a thros dro yn ddwyieithog, y tu mewn i'n safle a'r tu allan iddo. Dyma sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae'n bosibl y bydd arwyddion eraill, mewn ardaloedd cyhoeddus a'r tu allan i'n safle, yn perthyn i berchennog yr eiddo a'r tu hwnt i'n rheolaeth.

8.3 Gwefan a Chyfringau Cymdeithasol.

Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog a bydd yn ddwyieithog yn y dyfodol hefyd.

Bydd ein tudalen agoriadol yn nodi bod croeso i gwsmeriaid ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddelio gyda ni lle bo modd.

Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ddwyieithog ar ein gwefan, caiff fersiynau yn y ddwy iaith eu rhoi yno yr un pryd.

Bydd postiadau ar ein cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, a byddwn yn croesawu ac yn ymateb i sylwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.



8.4 Cyhoeddiadau a Deunydd Gweledol.

Fel arfer byddwn yn cyhoeddi'r deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd ac i gleientiaid yn ddwyieithog, gan roi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddiadau corfforaethol cyffredinol, taflenni am bynciau, canllawiau, ffurflenni, llenyddiaeth hysbysebu, adroddiadau, a holiaduron. Dyma sy'n digwydd ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i wneud hyn.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddwy fersiwn yn hafal o ran maint ac ansawdd. Fel arfer byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd, a bod y naill mor hygyrch â'r llall. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i ddeunydd a fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, gan gynnwys ffurfiau sefydlog a rhyngweithiol, a deunydd ar CD-ROM neu ffurf arall, gan gynnwys y Rhyngrwyd. Pan fyddwn yn dosbarthu ffurfiau ar ran sefydliadau eraill, er enghraifft Llywodraeth Cynulliad Cymru neu awdurdodau lleol, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn unol â'u polisi dwyieithog.

8.5 Marchnata a Gweithgareddau Cyhoeddusrwydd.

Pan fyddwn yn trefnu digwyddiad, neu'n mynd i ddigwyddiad, ac yn arddangos ein deunydd, byddwn yn arddangos copïau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd unrhyw destun ar fyrddau arddangos neu mewn arddangosfa yn ddwyieithog.

Pan fyddwn yn rhoi hysbysebion mewn papurau newydd, cylchgronau neu gyhoeddiadau eraill, byddant yn cynnwys ein brand a gwybodaeth gorfforaethol ddwyieithog. Wrth staffio arddangosfeydd a stondinau, byddwn yn cynnwys aelod dwyieithog o'r staff neu Gyfarwyddwr Bwrdd dwyieithog.

Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, byddwn yn sicrhau y bydd pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff y rhai sy'n llenwi'r holiadur eu hysbysu y gallant ei llenwi yn y naill iaith neu'r llall.

8.6 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebu.

Pan fyddwn yn rhoi hysbysiad swyddogol yn y wasg, ar ein safle ac ar ein gwefan, er enghraifft hysbysiad ynghylch cyfarfod cyhoeddus, bydd yr hysbysiad yn ddwyieithog.

Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog.

9. Rheoli a Chefnogi'r Polisi hwn.

Mae hwn yn bolisi cwmni, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen Cyf. Byddwn yn cydlynu ac yn adolygu ei weithrediad fel rhan o'n gwaith parhaus o weinyddu'r busnes. Rhoddwyd y dasg o arwain a goruchwyllo cynnydd i un o'n Rheolwyr.

Byddwn yn rhoi anogaeth ac arweiniad ar ei weithredu i'n staff, er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth i'w wneud, a'u bod yn gallu gwneud hynny'n hyderus.

Mae trefniadau cyfieithu yn eu lle er mwyn helpu i gyflawni'r polisi. Byddwn yn monitro ac yn sicrhau ansawdd gwasanaeth a ddarperir gennym trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'n trefniadau gofal cwsmeriaid. Byddwn yn cymhwyso'r un meini prawf gwerthuso ag y byddem yn eu cymhwyso i agweddau eraill ar ein gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â phryderon cwsmeriaid. Cefnogir unrhyw aelod o'r staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella ei sgiliau Cymraeg er mwyn defnyddio'r Gymraeg yn y busnes.



Caiff staff sydd mewn swyddi lle byddai sgiliau Cymraeg yn ddefnyddiol er mwyn cyflawni neu hybu'r Polisi hwn eu hannog i ddatblygu sgiliau Cymraeg fel rhan o'u cynnydd.

Pan gafodd y Polisi hwn ei fabwysiadu fe wnaethom feincnodi'r hyn y gallem ei gyflawni. Byddwn yn adolygu ein cydymffurfiad a chynnydd wrth ei weithredu yn rheolaidd, ac yn asesu a allwn ddatblygu ein gweithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg ymhellach. Lle gellir gwneud rhagor, byddwn yn adolygu geiriad y Polisi ac yn symud ymlaen.

10. Monitro

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio mor llwyr ag sy'n bosibl â'r polisi hwn, bydd Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen Cyf. yn:

- Monitro cydymffurfiad â'r polisi hwn ac yn cywiro unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio.
- Adolygu'r polisi o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried newidiadau yn y ddeddfwriaeth neu yng ngweithgareddau Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen Cyf. Caiff y polisi ei adolygu yn rheolaidd bob dwy flynedd.

Llofnodwyd ar ran Pwyllgor Rheoli Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen:

LLOFNOD:

G.T. Coucher

ENW:

Tom Coucher

SWYDD:

Charmae

DYDDIAD:

21 Jan 25

Dyddiad yr Adolygiad nesaf: 01/12/2025